YR YMOFYNYDD.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] RHAGFYR, 1897. [RHIF 120.

BRWYDR HIR YR OESAU,

GAN Y DIWEDDAR

BARCH. W. THOMAS, M.A. (GWILYM MARLES).

"*Diau cynddaredd dyn a'th foliana Di; gweddill cynddaredd a waherddi.*"—SALM lxxvi. 10.

YN raddol yr ä'r byd yn mlaen at bethau gwell. Nid y ffrwyth a ddaw yn gyntaf, ond "Yn gyntaf yr eginyn, ar ol hyny y dywysen, yna yr ŷd yn llawn yn y dywysen." Dyna hanes pob diwygiad a gymerodd le ar y ddaear erioed. Deil rhai, y mae'n wir, fod cyfnewidiadau mawrion yn cymeryd lle ar unwaith. Ymddangosant fel yn meddwl y daw tranc ar hen syniadau cyfeiliornus mewn un dydd, ac yna y cleddir hwy, ac y daw tymp amser gwell ar unwaith, yn debyg, megys ag yn Ngogleddbarth Ewrop, nad oes rhyw gam mawr rhwng gauaf a haf, ond y tyr y goedwig i lawn ddail ar unwaith, a'r dolydd i fod yn weirgloddiau. Nid felly yr wyf fi wedi darllen hanes. Graddol y gwelaf fi bob diwygiad wedi ei ddwyn i ben. Gan bwyll y symudir ymaith bob gau syniad a phob athrawiaeth gyfeiliornus, a phob coel wageddus, a phob arfer orthrymus, a phob deddf anghyfiawn.

DADBLYGIAD YW Y BYWYD DYNOL

mewn gwleidiadaeth, moesau, a chrefydd—o fewn ychydig ac ychydig y dygir pob gwelliant i ben. Rhyw nifer fechan ar y dechreu a fyntumiant yr olwg well ar bethau; chwiliant, holant, darllenant, ymresymant, ymladdant—aiff amser maith heibio, ac

o'r diwedd ildir i'r diwygwyr fodfedd ar ol modfedd. Tywelltir gwaed gan amlaf. Bydd rhywrai yn ddyoddefwyr mawr. Yn raddol addfedir y farn gyhoedd, argyhoeddir un ar ol y llall, a daw y mesur yn gyfraith neu yn opiniwn cyffredinol.

Dywedais fod rhai yn *ddyoddefwyr*. Mae dynion i'w cael, goreuon y bobl, wedi eu llyncu gan ryw feddylddrych canmoladwy—gan ryw egwyddor werthfawr, ac nis gollyngant afael arni—caiff bywyd ei hun fyned yn gyntaf. Nid yw y byd un amser yn wâg o'r cyfryw. Maent yma yn halen y ddaear. Maent yma â chydwybodau cedyrn na chymerant eu hystwytho gan olew cyfoeth na ffafr. Safant ar brif-ffordd rhinwedd i rybuddio ereill rhag troi i groesffyrdd bydol-elw, a gobeithion presenol am urddas a dyrchafiad. Mae y dynion hyn yn anmhrisiadwy. Helpant y wlad a'r deyrnas yn mlaen. Maent yn byw i bwrpas Nis gallwn wneyd hebddynt. Maent yn dystion croew fod eisieu diwygio'r byd, ac y rhaid i amseroedd gwell i ddyfod. Yn aml nid ydynt yn ddysgedig iawn nac enwog iawn. Nid oes arnynt y cyfryw nodau ag a eilw y byd yn nodau o fawredd. Ond ynddynt mae y peth hwnw nas adnebydd rhai—yr anhyblygrwydd hwnw, y penderfyniad a'r ffyddlondeb hwnw, a elwir genym yn egwyddor gywir ac anrhydeddus.

"Cynddaredd dyn a'th foliana." Brwydr boeth yw

BRWYDR RHYDDID

wedi bod o'r dechreuad. Fel y mae dyn yn gorfod darostwng y ddaear, a'i harllwys, a symud ei drain a'i mieri, ei brwyn a'i chorsydd, felly hefyd mae pob modfedd o ryddid gwladol a chrefyddol sydd genym wedi ei enill trwy eithaf ymdrech galed. Tystiolaeth i ffyddlondeb dewrion ein teyrnas yw y deddfau teg a chyfiawn ag sydd genym yn awr. Ond mae gormeswyr anoleuedig a llidiog yn chwareu âg arfau dinystriol. Gyrant hen gerbyd gormes dros yddfau dyoddefwyr gyda buander angeuol; ânt yn rhy bell; nis medrant lywodraethu symudiadau y cerbyd, nes yr hyrddir hwy i ddyfnderoedd siomedigaeth a gwaradwydd. Chwi glywsoch am Pharaoh, brenin yr Aifft. Gorthrymodd ef blant Israel yn dost. Caled oedd eu byd yn ngwaith y priddfeini. Esgynodd eu hocheneidiau hyd y nefoedd. Darparwyd Moses yn waredwr. Tywysodd ei gydwladwyr allan o'r caethiwed. Llidiodd y gorthrymwr—ymlidiodd ar ol y ffoaduriaid hyd lenydd y Môr Coch. Anturiodd yn ei ryfyg i ganol ei dònau, ac yno y darfu am dano, medd yr hen hanes. Aeth yr Israeliaid drosodd yn ddiangol; ac ar ol dysgyblaeth faith a llym yn yr anialwch, daethant yn genedl gref. Bu iddynt eu Dafydd a'u Solomon, ac ohonynt hwy yr hanodd Crist "yn ol y cnawd." Pa le y mae Pharaoh? Cwblhaodd ei ddinystr ei hun. Cauodd tònau y Môr Coch am dano, tra yr aeth tadau y genedl yn mlaen rhagddynt i fuddugoliaeth, awdurdod, a bri. "Cynddaredd dyn a'th foliana." "Gweddill cynddaredd a waherddi." Mae terfyn

tu draw, yr hwn nis gall Pharaoh na neb arall gyrhaedd. Fe rwymir y gorthrymydd ei hun; gorchfygir yr ysbeiliwr; try ei arfau ei hun yn angeu iddo.

Mae breinlen fawr Rhyddid yn y wlad hon yn dyddio o'r flwyddyn 1215—dechreu y drydedd ganrif ar ddeg. Safodd y Brenin John hyd y gallodd yn erbyn diwygiad yn y cyfreithiau, yn erbyn rhoddi cyfiawnach teitl i'w ddeiliaid i'r mwynhad o'u hiawnderau naturiol. Safodd yn gyndyn, nes y gorfu iddo roi ffordd. Yr oedd yr Arglwyddi a'r Esgobion—chwareu teg iddynt—y pryd hwnw ar du y bobl. Ffol iawn a fu y brenin. Cafodd y bobl, trwy ei ystyfnigrwydd ef, fwy nag y crefent am dano yn y lle cyntaf. Enillwyd y pryd hwnw, ar waethaf y brenhin, yr hyn sydd wedi bod yn sylfaen rhyddid Prydeinig byth oddiar hyny.

Y Brenin Harri IV. oedd y cyntaf i basio deddf i losgi hereticiaid; hyny yw, y rhai na chydsynient ac na chydffurfient â'r gred dduwinyddol ofergoelus a gwag y fath ag ydoedd ar y pryd. Yn erbyn y Lollardiaid, neu ganlynwyr John Wycliffe, yr anelai ef ei saethau. Mynent hwy ymwrthod â phethau mwyaf gwaradwyddus y grefydd Babaidd. Mynai yntau a'i gynghorwyr eu llosgi am hyny. Gwnaeth i lawer ddyoddef. Achosodd lawer o alanas, ond lluosogi a wnai y Lollardiaid. Nid oedd modd i'w tewi trwy garchar, na'u lladd trwy ferthyru. Yr oedd yna

RYW FYWYD DIRGEL ANORCHFYGADWY

yn nerth i'r dyoddefwyr. Er gwaethaf Harri IV. a Harri V., ac ereill ar eu hol, enill tir wnai y syniadau, casglu nerth a wnai'r erlidiedig, nes, maes o law, y torodd allan yn nghwrs Rhagluniaeth

Y DIWYGIAD PROTESTANAIDD.

Da ei gael, er mor anmherffaith yr oedd. "Gwaed y merthyron yw had yr Eglwys." "Cynddaredd dyn a'th foliana."

Wedi i Brotestaniaeth ddyfod yn grefydd arddeledig a sefydledig y deyrnas, yr oedd dosbarth o ddynion yn bodoli nas gwelent fod Protestaniaeth Harri VIII. ac Elizabeth y peth y dylai fod. Enciliasant i'r Cyfandir, gan gario syniadau purach am ryddid crefyddol gyda hwynt nag a ffynent yn eu gwlad enedigol. O blith y cyfryw yr aeth allan

Y TADAU PERERINOL,

sefydlwyr crefyddol a gwladol America. Mae y *Mayflower* a'u cariodd i'r America yn enwog ger bron y byd. Os oedd Ewrop yn eu caethiwo, eu herlid, a'u drygu, draw ar draethau gorllewinol yr Atlantic yr oedd gwlad fawr gynyrchiol yn agored iddynt. "Cynddaredd dyn a'th foliana." Beth ddaeth o'r ymfudiad hwnw? Gwleidiadaeth rydd a chrefydd rydd America. Cariasant

gyda hwy yr un egwyddorion ag oedd ganddynt yma; ni chaniateid iddynt yma eu traethu a'u hamddiffyn. Cawsant wlad newydd ac eang i'w cyhoeddi. Buont yn greawdwyr cyfandir newydd, yn cael ei lywodraethu ar y cyfan gan egwyddorion uwch a mwy bendigedig na'r wlad a adawsant. A gariodd gorthrymwyr Prydain eu hamcan? A lwyddasant yn eu mesurau? Naddo. Agorodd Rhagluniaeth ddrws mawr ac agored i gyhoeddi a choleddu egwyddorion rhyddid cymdeithasol. Yr ergyd gwaethaf i hen syniadau gwladol y deyrnas hon a roddwyd erioed oedd llwyddiant a ffyniant y Werin-lywodraeth Americanaidd. Fel pob teyrnas arall, mae yr Unol Dalaethau wedi gorfod ymladd eu ffordd yn mlaen yn ngwyneb llawer o rwystrau. Mae wedi gwneyd rhai camsyniadau dybryd; ond saif allan yn dystiolaeth ger bron y byd nad ein ffurflywodraeth ni yn y deyrnas hon yw yr unig un a gyfetyb i angenion dynion. Dengys na raid wrth sefydliad gwladol o grefydd er mwyn cadw crefydd yn fyw. Gormes y wlad hon a fu yn foddion i greu Gwerin-lywodraeth America. Tra pery yr Unol Dalaethau, bydd prawf parhaus yn aros nad yw brenin neu frenines ddim yn hanfodol i hawddfyd teyrnas, ac nad crefydd sefydledig yw yr unig ffurf o grefydd fedr sicrhau hawddfyd ysbrydol ei deiliaid.

(I'w barhau.)

Y BWTHYN.

"Give me a cottage on some Cambrian wild,
Where, far from cities, I may spend my days."

H. K. White.

LLWYD oedd y bwthyn lle magwyd fi,
Pridd oedd y muriau, gwellt oedd y to,
Aml yr ategion ddalient e'n gry'
Rhag cwymp pan mae'r dymhestl trwy'r fro;
'Doedd ond un simne fechan a llwyd,
Dan hono, er hyny, 'roedd aelwyd glyd;
'Roedd bwrdd i'r llyfrau, cwpbwrdd i'r bwyd,
Ychydig lyfrau—a dyna i gyd.

O'i flaen 'doedd cyntedd, na'i angen 'chwaith,
Ond cul ysmotyn, caled a glan,
'Rhwn 'sgubwn weithiau, gan hoffi'r gwaith,
A 'scubell ddestlus o'r bedw mân;
Y pen dwyreiniol oedd llety'r fuwch—
Y fuwch goch laethog a'i chyrnau braf—
A hwn yn uno—ddarllenwyr, clywch,
'Roedd cab y porchell, geintachlyd gnaf.

Yn orllewinol 'roedd caban twt
  I'r tyweirch duon o hyblyg wrysg,
Y to oedd redyn—'rol tyfu'n grwt,
  Yn aml mi'u cariwn o'r llethri'n frysc;
Tu cefn i'r bwthyn 'roedd gardd fach dlos,
  'Rhon at wasanaeth bob peth wna'i ddwyn,
Ac ynddi'r gwanwyn o foreu hyd nos,
  Fy hun llafuriwn a modryb fwyn.

'N yr ardd 'roedd ffynon, a ffynon bur,
  Y dw'r dderbynid gan gafan pren,
Mi garwn weithiau, 'rol lludded blin,
  I'r cafn mwswnog i wthio 'mhen;
Tu flaen i'r bwthyn y rhedai nant,
  Ei dyfroedd gronwn er gweithio ffrwd,
Ac uwch lle'r pistyll ddisgynai i'r nant,
  Y coll-wydd llathraidd wnaent brydferth fwd.

Lawr yn ddwyreiniol estynai gwawr,
  Nid maith na gwastad—'rhyd ochr yr hon
Y nant ymlithrai, a'i chryglyd sain
  Ddifyrai y ceibiwr ar ael y fron;
I'r waun tröem weithiau ber ffrydiau'r nant,
  A'r pysg a ddaliem â'n dwylaw'n glau;
Y glaswellt darddai 'rol äi'r dw'r bant,
  A'r pysg'n y gornant wnaent amlhau.

Bob tu i'r bwthyn 'roedd llethri serth,
  Ond lle i'r afon arllwysai'r dw'r,
Ac yma ac acw 'roedd creigiau certh,
  Abl i ddychrynu'r cadarnaf wr;
A rhygnog o dderw flwyddi maith,
  Sa'ent draw gyferbyn a'r bwthyn bach,
Lle'r ddu-frân nythai, a'r biog fraith,
  A minau ddringwn â chalon iach.

Dwy dderwen frigog gysgodai'r bwth,
  Ail dwy efeilles ran maint a llun,
Eu cangau ymledent yn braff a rhwth,
  Fel am gofleidio yr adail gun;
Gwnawn weithiau dori â'r fwyell fach
  Ar gyff y derw fy enw pan
Eisteddwn yno, gan dybio'n iach
  Mewn blwyddi i ddyfod d'own heibio i'r fan.

Aml hirnos gauaf eisteddwn lawr,
  'Flaen fy nhân tyweirch, a'm llyfr yn fy llaw,
Tra 'nghangau'r derw y rhuthrwynt mawr
  Ysgrechai'n aruthr nes peri braw;

Bonffagl o eithin roi weithiau i mi
  Oleuni, dro arall, canwyllau prudd—
Melus oedd Iolo a Daniel Ddu
  'Rol caled bwytho trwy gydol dydd.

Arferwn ddarllen wrth drin y cŵyr,
  Fflochenai weithiau ar hyd y dail;
Yn aml anghofiai y dwylaw'n llwyr
  Eu gwaith, a'r meddwl rwydd hynt wnai gael;
Bu Carey a Gifford, a Bloomfield fwyn,
  Yn ymdrafferthu 'run modd a hyn,
Eu siampl i ninau gaiff gynwys swyn,
  O bethau bychain daeth pethau syn.

Arferwn ganu 'rhyd glàn y nant,
  A chanai hithau—ein dau yn nghyd,
A 'nawr ac eilwaith rhoi'r fronfraith dant,
  A dawnsiai'r helyg i'r canu i gyd!
Cynlluniau lawer, dych'mygion fyrdd,
  Bryd hyny lanwent fy ieuanc fron,
Gwnaeth dudew nifwl gau 'fyny'r ffyrdd,
  Bryd hyny edrychent yn rhwydd a llon.

Yn lle'r hen fwthyn mae newydd un
  Yn awr yn sefyll yn yr un lle,
Mae hwn yn harddach, ond hwnw sy'n
  Cynhyrfu 'nghalon pan gofiwyf e';
Yn hwnw gweddïais tro cynta' erio'd,
  Ger llaw y ffenestr yn ochr y bwrdd;
Yn hwnw awyddwn wel'd Sul yn d'od,
  Gael yn y capel â'm ffryndiau gwrdd.

'Chydig gyfeillion i ngweled ddoi,
  Ond detholedig ac anwyl o'ent;
Mamgu ymweliad yn aml wnai roi,
  A rhai modrybedd eu cwmni ro'ent;
Ewythredd hefyd—rhai cu o'ent hwy,
  Mae rhai ohonynt yn awr yn mhell,
Eu gliniau ddringwn—ond oll byth mwy
  Ni welaf, f'allai, 'ddieithr mewn gwlad well.

Yn iach, fy mwthyn, os heibio dof
  I'r fan y sefaist, fy nghalon ga
Roi maes ei chynwys—hallt ddagrau rhof
  I eneinio'r trothwy o'r palmant da;
Darllenaf f'enw ar gyff y pren,
  A drachtiaf ffrydiau y gornant bêr,
Adgofiaf ddyddiau y goreu îs nen,
  Gwenau nas gwelaf 'r un man dan ser.

GWILYM MARLES.

LLYFR JOB.

OS ydyw hanes yn dysgu un wers yn fwy na'r llall, hon yw: mai cyfaill goreu dyn yw trafferth. Dyna deimlad pob gwron, dyna brofiad yr hil. Enaid dyn bob amser yn ymestyn tuag i fyny, corff dyn bob amser â thuedd ynddo i ymlusgo ar hyd y llawr. Nefoedd o fwyniant yn ymagor o flaen llygad dychymyg; ffeithiau byd a bywyd yn curo yn drwsgl yn ein hymyl, ac yn tori ar ein breuddwyd. Yna rhyw gymysgedd o boen a phleser, teimlad o fawredd meddwl a gorthrymder mater, ysbryd dyn yn curo ei adenydd wrth ffenestr ei garchar, ond bob amser yn syrthio yn ol, clwyf dan ei fron, a chân neu gŵyn yn ei fynwes. Canu a chwyno—dyna helynt dyn o'r dechreu hyd yn awr; a phleser penaf rhai yw rhoddi clust i'r caneuon a'r cwynion yma, gwrando yn astud er clywed beth ddywed goreuon byd wrthym; ymdrechu gwneyd ein meddyliau ni yn debyg i'w meddyliau hwy, a'n llwybrau ni, i ryw fesur, ar yr un llinell a'u ffyrdd hwy.

Ni wyddom am un llyfr mor llawn o'r gŵyn a'r gân a Llyfr Job. Gallem hebgor rhai rhanau o'r Hen Destament; ni fyddai'r byd nemawr gwaeth pe'u collid. Ond ni fyddai'r Hen Destament yn gyflawn pe na chynwysai Lyfr Job. Gan nad beth yw barn y cyhoedd, nid Beibl i Undodwr fyddai'r Beibl heb brofiad yr amheuwr hyf a thrwsgl hwn. Saif y llyfr ar ei ben ei hun, fry tuhwnt i bob ymgais arall ar ran yr Iuddewon. Daeth y llyfr i fodolaeth—ni ŵyr neb pa bryd; ysgrifenwyd ef gan rywun—ni ŵyr neb gan bwy; y pwnc a drinir ynddo—pwnc dirgel yw; dyfnion bethau bywyd—sut gallant lai na bod yn ddirgel?

Yr oedd yna draddodiad yn mhlith yr Iuddewon; dywedai tad wrth fab, a hwn wrth y llall, mewn sibrwd, fod yna ddyn rhyfedd, Job wrth ei enw, wedi bod, dyn mawr, dyn rhyfygus, dyn gymerodd Deyrnas Dduw drwy drais! Os deuid ar draws dyn lled ëofn, meddai un wrth arall, "Dyna ddyn tebyg i Job." Os clywid dyn yn cablu, "Ni fu ei fath," meddid, er amser Job." Os codai cwynfan o fynwes dyn, teimlid fod y truan mor drist a Job ar ben ei domen. Os elai neb i gysuro dyn mewn trallod, "A glywsoch chwi," gofynid, "am ddyddanwyr Job?" Gwyddai pawb rywbeth am dano; yr oedd wedi marw er hir amser, ond yr oedd ei ysbryd yn marchog gwyntoedd a 'stormydd bywyd; rhyw ysbryd anesmwyth, cythryblus, nas gellid dawelu. O'r diwedd, ymaflodd dychymyg un ynddo, ffrwynodd ef, cafodd y llaw drechaf arno, a byth oddiar hyny y mae wedi bod o wasanaeth i ddynolryw. Ysbryd Job yw ysbrydoliaeth llawer o lenyddiaeth ddiweddar; teimlad Job yw teimlad y byd heddyw; y gruddfan a'r ochain—adsain yw o adfyd Job.

Beth yw'r darlun geir ohono? Patriarch yw, ac fel y patriarchiaid gynt, y mae yn frenin dros ei deulu; ac hefyd fel y patri-

archiaid, offeiriad yw, yn gymhwys i aberthu. Ond nid dyna'r cyfan. Gall fod yn frenin, gall fod yn offeiriad: ond y mae hefyd yn amheuwr; y mae yn gymaint o anffyddiwr ag awdwr Llyfr y Pregethwr; y mae mor rhydd ei farn a'r penaf o'r meddylwyr Groegaidd.

I ba wlad y perthyn iddi? Dwyreiniwr yw, yn ddiddadl; ond dwyreiniwr hynod wybodus yw. Gŵyr rywbeth am iâ y pegynau; gŵyr hefyd am wres y cyhydedd; y ser yn eu cylchoedd —gwel hwynt; trysorau y môr—nid ydynt guddiedig oddiwrtho. Rywsut, pan yn darllen y llyfr, teimlwn fel pe bai yr offeiriad wedi ymddiswyddo, a bod dirgel bethau y cysegr yn agored i awdwr y llyfr; teimlwn fel pe bai y proffwyd wedi disgyn oddiar ei dŵr, ac mai hwn yn awr sydd yn cadw gwyliadwriaeth; teimlwn fel pe bai olwynion byd a masnach wedi sefyll, a bod pawb yn gwrando am wybod beth sydd gan hwn i ddyweyd am fywyd.

Beth yw baich ei genadwri? A pha sut y traddododd hi? Os edrychwn yn ofalus, fe gawn wel'd cywreinwaith, gan un nad yw ei genedl yn nodedig am eu celfyddyd. Dyma ddyn â chlust agored, dyma ddyn â llygad craffus; i hwn y mae pob adran o feibl mawr natur yn wybyddus. Yr oedd awdwr Llyfr Job yn gelfyddydwr; yr oedd hefyd yn hoff o wyddor. A mwy na hyn; nid yn fynych y deuir ar draws rhesymeg o'r fath a ganfyddir yma. Gall fod y Groegiaid yn fwy trefnus yn eu ffordd o ddadleu; ond os gofynir beth yw gwerth y gwir a geir yn y pen draw, yna yn ddiddadl, saif awdwr y llyfr hwn yn y rhestr flaenaf. Y mae ganddo ryw ffordd o neidio at y gwir; arweinir ef yn fwy gan ei deimlad na chan ei feddwl; ond os yw ei galon yn curo dros y gwir, yna canmolwn ei anian, gwrandawn ar ei genadwri.

Credwn mai gwell yw cymeryd ein harwain gan Job, a dynion tebyg iddo, yn hytrach na gwŷr y credoau. Nid un di-ffydd oedd Job; ei ffydd oedd ei nerth a'i wendid. Ei ffydd yn Nuw oedd yn peri iddo ofyn cwestiynau; ei deimlad cryf mai cyfiawn oedd ei Dduw achosodd yr oll o'r cablu a'r melldithio. Duw Ei Hun yn ymddangos, presenoldeb Duw yn amdoi yr oll—dyna ateb holl-ddigonol i Job, dyna brawf o nerth ei ffydd. Ar brydiau cyfyd cwestiynau yn ein mynwes ninau; gallwn dreio mil a mwy o ffyrdd i'w dystewi; ond cyfodi wnant o hyd, a hyny yn ddibendraw, hyd nes y cymerwn olwg eang ar bethau oddiallan i ni, ïe, hyd nes y teimlwn, fel y gwnaeth Job, mor lleied peth, wedi'r cyfan, yw dyn yn y bydysawd. PERERIN.

Y TEBOT.

Ni fyn neb fyw hebot—ar un aelwyd,
Yr anwylaf Debot;
Yn mhobman, y bychan bot,
Mynwn dê'n chwim ohonot.

D. O. JENKINS.

JOHN ISHMAEL JONES.

IX.

AR ddydd Sadwrn, yr oedd Mr. Jones wedi bod yn darllen i Miss Edwards. Dydd Sul, yr oedd yn ddiwyd iawn fel arferol gyda'i ddyledswyddau cyhoeddus; ac ar y Llun canlynol cytunwyd fod ei gyfaill Tom ac yntau i dreulio y dydd yn nghwmni eu gilydd. Nid oedd ganddo amser, ynte, i wneyd rhagor na galw wrth y drws, ac ymholi am iechyd Miss Edwards. Pan y cafodd allan ei bod yn graddol wella, ac y buasai yn debygol o fod allan cyn pen nemawr o ddyddiau, dychwelodd i'w fyfyrgell, ysgrifenodd rai llythyrau, ac yna aeth i lawr i'r stesion i gwrdd ei gyfaill.

"Wel, Tom, i b'le heddyw? fyny i'r *study*, neu am rodfa dros y bryniau?"—dyma oedd croesaw cyntaf Ishmael, fel y gwnai Tom ddyfod allan o'r tren.

"'Rwy'n meddwl," atebai Tom, "y byddai bron yn bechod i dreulio y fath ddiwrnod gogoneddus a hwn yn y tŷ. Beth pe baem yn estyn tipyn o'n coesau ar y bryniau y boreu yma."

Felly dringasant i fyny yn hamddenol i lechweddi serth a rhamantus Bryn-yr-ŵyn, ac arosent am foment yma ac acw i lanw eu cyrff âg awyr bur y mynydd, a chymeryd i fewn brydferthwch eang yr olygfa. Dringent i fyny ael y mynydd, gan fyned amgylch ogylch iddo, a chymerodd awr gyfan iddynt cyn cyrhaedd ei goryn. Yma yr eisteddasant i orphwys, gan edrych oddiamgylch. Am amser yfent yr olygfa mewn dystawrwydd. Yr oedd y ddinas wrth eu traed; ac yr oedd mor agos i droed y mynydd ar un ochr fel y gallent daflu careg i lawr i ben y tai. Yr oedd y bobl fychain, oblegid felly yr ymddangosent iddynt hwy o'u seddau uchel, yn gwibio yn ol a blaen drwy'r ystrydoedd odditanynt, tra y gallai Ishmael a Tom rwydd ddychymygu eu hunain fel duwiau ar Olympus, yn tawel edrych dros y cyffro a'r terfysg, yn yr hwn nid oedd ganddynt un rhan.

Yma yr eisteddent, a syrthiasant i hir ymgom, fel llawer yn yr amser yma, ar y cwestiwn agosaf atynt.

"Ishmael, a ydych yn gwel'd y gadwen hir o fynyddau acw, ryw chwech milldir i ffwrdd, dros y gwastadedd tuhwnt i'r afon, ac yn rhedeg yn gyfochrog â hi o'r gogledd i'r de mor bell ag y gwelwn?"

"Ydwyf."

"Wel, rhaid mai y rhai yco ydoedd hen geulan yr afon, yr hon, oesau yn ol, a lanwai y gwastadedd yma, ac a orchuddiai y tir lle y mae yr holl ffermydd, a threfi, a rheilffyrdd yn awr."

"A ydych yn meddwl hyny?"

"Nid meddwl yr ydwyf: yr wyf yn gwybod. Y mae y dw'r wedi gadael hanes ei waith yn y gorphenol."

"Pa mor bell yn ol ydych yn gredu oedd hyn?"

"O, llawer o filoedd o flynyddau. Nid yw oesau ond fel mynydau gan y daearegwyr: a 'dyw ychydig yn fwy neu lai yn gwneyd dim un gwahaniaeth."

"Nid ydych yn credu rhyw lawer yn Moses, ynte, feddyliaf."

"Credu yn Moses," meddai Tom, "pa'm y dylwn i?"

"Pa'm na ddylech chwi? Ai ni allai Duw ysbrydoli dyn i ysgrifenu hanes ei waith?"

"Nid a *allai* ydyw y cwestiwn, ond a *wnaeth* Ef; ac y mae yn gwestiwn o ffaith i'w benderfynu ar y profion. Yn awr y mae Moses, neu Genesis, yn dyweyd fod Duw wedi creu y byd mewn chwe' diwrnod, ryw chwe' mil o flynyddau yn ol. Ac eto, mae cwymp y Niagara yn taranu yn nghlustiau yr holl fyd a wna wrandaw y ffaith ei bod wedi cymeryd, o leiaf, ddau can' mil o flynyddau i dori drwy ychydig filldiroedd o graig o ddechreu y cwymp i ddiwedd y rhaiadrau."

"Ond beth am yr esboniad newydd ar Genesis, ag sydd yn gwneyd y chwe' diwrnod yn chwe' chyfnod o hyd anmhenodol?"

"Dim ond baldordd. Y mae'r hanes yn dyweyd yn bendant dyddiau, gyda hwyr a boreu. Ac os nad yw y gair "dydd" yn golygu dydd, sut y gwyddoch beth mae unrhyw air arall yn olygu? Ac yna, nid yw trefn tyfiant y byd yma ddim yn cydfyn'd â threfn Moses, er cymaint y byrhau a'r estyn. Ac yr wyf yn meddwl fod yna un egwyddor y gallwn ei dilyn yn ddyogel. Pa un a ysgrifenodd Duw y Beibl, neu beidio, un peth a wyddom: y byd yw Ei waith, a natur yw Ei lyfr. Y mae yr hyn mae hwn yn ddyweyd, gan hyny, yn wir, pa un a ydyw amcanion plentynaidd a breuddwydion boreu yn ei gylch yn wir neu beidio."

"Ond a ydych yn meddwl fod Moses wedi ysgrifenu yr hyn wyddai nad oedd yn wir?"

"'Nawr, edrychwch yma, Ishmael, mae hwna yn agor cwestiwn eang. Gadewch i ni fyn'd dros y Beibl am ychydig, a gweled beth ydym yn wybod mewn gwirionedd am dano."

"Fodd bynag, ni a wyddom mor hir y mae wedi sefyll yn erbyn pob ymosodiad, a sut y mae wedi arwain a chysuro dynion."

"Digon gwir, mor belled; felly y mae y Veda, y Tripitaka, Confucius, a'r Koran wedi dal eu tir; yr oll, ond yr olaf, am fwy o amser na'r Beibl. Ac y maent heddyw yn cysuro mwy o bobl na'r holl fyd Cristionogol lawer gwaith drosodd. Nid gwiw i ni feddwl mai ni yw pawb yn y byd."

"O leiaf, mai y Beibl ydyw Llyfr gwareiddiad."

"Ië, oherwydd fod y bobl hyny sydd mewn meddiant o'r Beibl yn dygwydd bod y rhai ag sydd ynddynt y stwff hwnw er gwneyd gwareiddiad allan ohono."

"Nid ydych yn meddwl, ynte, mai y Beibl ydyw achos gwareiddiad?"

"Pa'm y dylwn i, pan mae ei ddilynwyr ffyddlonaf wedi ymladd yn erbyn gwir wareiddiad ar bob cam?"

"Ond nid yw hyn ond yr ysbryd ag sydd yn gwrthweithio ceidwadaeth Eglwys Rufain."

"Dim o gwbl, Ishmael. Y mae Protestaniaeth yn yr Eglwysi wedi ymladd â gwyddor mor chwerw a Phabyddiaeth. Yr oedd Luther mor llym yn erbyn y wybodaeth nad oedd yn cydfyn'd â'i olygiadau ef ag y buodd y Pab erioed. Ai ni ddarllenasoch sut yr oedd yn difrio a gwawdio y rhai feiddiai feddwl fod y byd yma yn *round*, ac fod preswylwyr yr ochr arall iddo?"

"Nid oeddwn wedi sylwi erioed."

"Wel, dyna ydyw hanes iawnffyddiaeth drwy yr oesau. Y mae yn ymladd â phob peth newydd mor bell ag y gallo. Yna y mae yn ail-esbonio'r Beibl, ac yn cael y pethau hyn oll yno, ac yn eu cymeryd yn garedig o dan aden datguddiad neillduol. Ni fydd yr amser yn hir cyn y bydd yna gyfamod sicr yn cael ei glytio i fyny, hyd yn nod rhwng Darwin a Moses. Fe wneir allan mai Moses oedd y Darwin cyntaf. Felly yn union y bu gyda Newton; melldithiasent ei ddeddf dysgyrchiad *(gravitation)* mor hir ag y gallent; ac yn awr am ddau can' mlynedd y maent wedi bod yn defnyddio y ddeddf fawr hon i bob pwrpas bron."

"Ond ai nid yw yn arwyddocaol, mai y cenedloedd ag sydd ganddynt y Beibl ydyw yr unig rai i wneyd cynydd?"

"Yn gyntaf, nid yw yn wir; a phe bai yn wir, ni fyddai o gwbl yn un rhyfeddod. Nid y Beibl greodd grefydd; crefyddau sydd yn creu Beiblau. Y cenedloedd uchelaf, mwyaf moesol a deallol, a gynyrcha y llyfrau uchelaf, puraf, a mwyaf cysegredig. Ond gadewch i ni edrych dros y Beibl, ac edrych pa hawliau y mae yn wneyd, a beth yw ei gymeriad gwirioneddol. Os oes yna unrhyw reswm pa'm y dylem gael ein cau i fyny gan adnodau, pob peth yn dda; os nad oes, gadewch i ni edrych yn ddiofn dros fyd eang Duw, ac edrych ar bethau megys ag y maent, ac nid fel mae pobl oesau yn ol wedi meddwl."

"Wel," meddai Ishmael, "y mae genyf fil o resymau dros ddymuno credu yn y Beibl; ond mi fyddwn yn llwfr i geisio osgoi rhag gwneuthur ymchwiliad manwl ohono. Os ydyw yn Llyfr Duw, fe ddal i edrych arno."

"Pa brawf gan hyny sydd ei fod yn ysbrydoledig?"

"Wrth gwrs, nid oes un dyn deallus a meddylgar yn dal yr hen athrawiaethau am Ysbrydoliaeth. Yr ydych yn cofio fel yr oedd yr hen Ddr. Owen yn credu fod yn rhaid fod hyd yn nod y nodau Massoretaidd yn yr Hebraeg wedi eu hysbrydoli, neu ni fyddai genym sicrwydd pendant beth fyddai yn olygu. Y mae yr hen ddamcaniaethau yma wedi eu gadael ar ol erbyn hyn."

"Yr oedd Dr. Owen yn iawn," meddai Tom; "ac os nad yw pob gair a llythyren ohono wedi eu hysbrydoli, mae y cyfan ar wasgar. Efallai y dywedwch nad ydych yn dal ond ei addysg angenrheidiol. Ond nid yw Cristionogion erioed wedi cytuno beth yw hyny; ac yn awr, pan mae dynion yn cael eu cornelu gan ei gamgymeriadau gwyddorol, dywedant nad yw wedi ei ysbrydoli ond i ddysgu moesau. Ac nid yw ei foesau hyd yn nod

bob amser y goreu. A ydyw y Beibl yn hawlio ei fod wedi ei ysbrydoli?"

"Mae yr ysgrifenwyr yn hawlio fod ganddynt Ddwyfol arweiniad. A ydych yn meddwl eu bod yn dyweyd celwydd?"

"Na; yr wyf yn meddwl eu bod wedi camgymeryd. Yr oedd pobl yn yr oesau boreu yn ystyried eu bod yn derbyn cenadau Dwyfol. Ystyrient freuddwydion, a phob amlygiad rhyfedd o fywyd, fel yn oruwch-naturiol. Nid wyf yn meddwl am fynyd fod neb o'r hen broffwydi a sylfaenwyr crefydd, mewn unrhyw genedl, yn dwyllwyr cydwybodol. Derbynient fel yn Ddwyfol a goruwch-naturiol yr hyn a wyddom ni sydd naturiol; dyna'r cwbl."

"Ond," meddai Ishmael," "sut y cafodd dyn yn byw yn amser Moses y fath feddyliau uchel am natur a chymeriad Duw, pan oedd yr holl fyd oddigerth hyny yn gorwedd mewn tywyllwch dudew? Yr oedd yn rhaid fod ganddo oleuni goruwch-naturiol."

"Y mae hyna yn awgrymu i mi bron yr hyn oeddwn am ddyweyd. Y mae yn awr wedi ei benderfynu yn derfynol, gan feirniadaeth ddiweddar, nad Moses oedd awdwr y Pum' Llyfr cyntaf o gwbl. Yn ei ffurf bresenol y mae yn gynyrch uchelaf a meddwl diweddaraf y genedl Iuddewig. Y mae yr adnod gyntaf yn Genesis yn dynodi uchelder gwareiddiad y genedl Iuddewig, ac nid y dechreuad isel. Y mae y Pum' Llyfr yn llawn o olion oes ddiweddarach. Y mae bron yr un fath a phe caem gyfeiriadau yn Shakespeare at y *telegraph* a'r agerlongau. Y mae y Pum' Llyfr yn llawn o ôl bysedd yr ychydig ganrifoedd o flaen Crist. Beth feddylid mewn llys barn o'r fath brofion a hyn am yr Hen Destament?"

"Beth ydych yn feddwl?"

"Hyn wyf yn feddwl: Fod yn agos yr oll o'r Hen Destament wedi ei ysgrifenu gan rywrai anadnabyddus. Y mae yn lenyddiaeth genedlaethol. Ni ŵyr neb pwy a'i hysgrifenodd, yn mha le, nac yn mha bryd; gwyddom nad ysgrifenwyd ef—y rhan fwyaf ohono—fel ag y credir yn y dull poblogaidd. Y mae yn llawn traddodiadau, hen chwedlau cenedlaethol, ac hanesion rhyfedd wedi eu gosod wrth eu gilydd gan ddwylaw anadnabyddus.

(*Pw barhau.*)

Q. T.

GELERT, CI LLEWELYN.

GELERT, meddai hen goelion—a lwyddodd
I ladd y blaidd creulon;
Trwy y gamp benigamp hon,
Bu'n gwared baban gwirion.

HUW TEGAI (1851).

UNDODIAETH—ARWYDDION BYWYD.

MAE ymdrechion ein brodyr a'n chwiorydd Undodaidd, perthynol i eglwysi Manchester a'r gymydogaeth, mewn cysylltiad â'r nodachfa ddiweddar, wedi eu coroni â llwyddiant pell tuhwnt i ddysgwyliad neb y tu allan i'r cylch uniongyrchol, fel o'r braidd na theimlwn yn barod wrth feddwl am dano i daflu ein capiau i fyny, ac i ymffrostio yn ein henwad. Chredwn ni ddim llai na chawn ni faddeuant yr Apostol Paul, canys, er iddo ef ddywedyd nad yw fuddiol i ymffrostio, eto fe fethodd beidio dal ar y fantais ei hunan pan oedd cyfleusdra yn rhoi. Felly, os awn ninau yn ffol wrth ymffrostio, teimlwn fod yr amgylchiad y waith hon yn ein gwneuthur yn esgusodol, pe ond er mwyn yr achos sydd yn anwyl genym. Fe'n cilgwthir gymaint, fe'n gwneir yn wrthrychau gwawd, a gwatwar, a gwaradwydd, dirmyg a dibrisdod, a phob lleuad fe ddarogenir ein trancedigaeth buan, fel y teimlwn ei bod yn iechyd calon i weled yr arwyddion hyn ein bod yn fyw, ïe,'n *very much so.*

Os oedd y Laodiceaid gynt yn glauar, y mae yn amlwg yn awr fod yn mhlith yr Undodiaid elfenau gwres nad oes ond angen eu dwyn at eu gilydd na fydd yna danchwa goleu. Dyma fel y bu: Yr oedd eisieu arian ar bobl Undodaidd Manchester, yn benaf er mwyn estyn cortynau eu preswylfeydd. Dywedir mai prif ysgogydd y mudiad oedd Mr. James Beard, lleygwr sydd â'i galon ar dân gan frwdfrydedd dros yr achos. Mae darllen yr hanes yn peri i ni gofio am ddygwyddiad yn hanes y genedl Iuddewig. Yr oeddynt wedi tynu eu telynau i lawr oddiar yr helyg yn Mabilon, wedi myned i fyny i Jerusalem—dinas enwogion eu cenedl—dinas oedd wedi ei sancteiddio iddynt gan adgofion o'r mwyaf cysegredig, ac yr oeddynt â'u holl fryd yn awr ar osod y mur o'i hamgylch. Nid oedd waeth beth am wrthwynebiad Sanbalat, a Thobiah, a'r Arabiaid, a'r Asdodiaid, aeth y mur i fyny; neu, yn ngeiriau yr hanes: "Nyni a adeiladasom y mur; a chyfanwyd yr holl fur hyd ei haner, canys *yr oedd gan y bobl galon i weithio.*" Dyna ddirgelwch pob llwyddiant, bod â'r galon yn y gwaith. Felly y bu yn Manchester. Ni fynai Mr. Beard a'i gynorthwywyr roddi ffordd o flaen un gwrthwynebiad nac un anhawsder. Gosodasant nod uchel o'u blaen, dim llai na sicrhau

DENG MIL O BUNAU!

Ymddangosai y ffugyr yn fawr, yn aruthrol fawr, ac yr oedd brodyr Sanbalat o hyd yn proffwydo methiant. Yn eu golwg hwy, nid oedd yr anturiaeth ond ynfydrwydd, a chymerent y cyfleusdra yn fynych ddigon i nodi beiau a datgan eu barn. Ond yr oedd yno bobl wedi ymgymeryd â'r gorchwyl â chanddynt galon i weithio, a ffydd a barai i bob mynydd o anhawsder

ddiflanu o'u blaen. Yr oedd tân yn eu calonau, a natur tân yw ymwasgar lle bynag y caffo elfenau cynaliaeth. Calonau ar dân gan gariad at yr achos, dwylaw parod, a thraed buain, dyna'r defnyddiau. Cychwynwyd yn dda, parhawyd yn ffyddlawn, heb lacâu dim drwy fisoedd y gwaith; a phan ddaeth y dyddiau medi, detholwyd personau o bwysau a dylanwad i osod eu bendith ar yr ymdrechion. Ar ddydd cyntaf yr wythnos hir-ddysgwyliedig, rhoddodd y foneddiges Lady O'Hagan ei phresenoldeb, a chyhoeddodd y Nodachfa (*Bazaar*), ar ol araeth werthfawr, yn agored am y dydd. Un o'r dychweledigion diweddar yw Lady O'Hagan, ac wedi dyfod drosodd oddiwrth y Pabyddion. Wedi coleddu syniadau anmhoblogaidd, nid oes arni ddim cywilydd eu harddel. Gesyd ei hunan ochr yn ochr âg aelodau y blaid y dywedir cymaint yn ei herbyn, gan roddi ei help felly i orchfygu y rhagfarn.

Yr ail ddydd, daeth Mrs. Humphrey Ward i areithio ac i gychwyn gwaith y dydd. Y mae Mrs. Ward yn un o lenorion penaf a phwysicaf y dydd, ac yn awdures llyfrau sydd wedi cael cylchrediad helaeth. Mae yn hanu o deulu pwysig ar lawer ystyriaeth. Cafodd ei dwyn i fyny yn yr Eglwys, ond y mae wedi bwrw ei choelbren yn ein plith ni, ac nid yw yn pryderu dim i roi help llaw i ddal i fyny faner ein ffydd ni i gyhoedd-fanau yn yr awyr agored. Undodiaid geni oedd y tri fuont yn rhoddi eu gwasanaeth y tri diwrnod canlynol. Pob parch i'r newydd-ddyfodiaid, a phob croesaw; ond ni wnawn anghofio teulu ein ffydd ein hunain—ffyddloniaid allant ymffrostio eu bod o'r llinach Undodaidd, ac wedi parhau yn ffyddloniaid, pan y mae lluaws mawr ag y gwyddom am danynt wedi dilyn Demas, gan garu y byd presenol. Nid felly Mr. Schwann, a Syr J. T. Brunner, A.S., a Mr. Harry Rawson. Teimlai y rhai hyn werth bod yn ffyddlawn i'w hegwyddorion, a'r ddyledswydd i wneuthur eu goreu i'w cario allan yn eu bywyd dyddiol. Baich y wers a ddysgodd un ohonynt yn nghapel Charles Beard oedd, i ymgyflwyno at waith y cyhoedd er daioni a lles y cyhoedd. Cynyrch y mudiad beiddgar hwn ar derfyn y pumed dydd, yn ol y *Christian Life*, oedd £9,652; ond dywedir y bydd y swm, ar ol cwblhau yr holl waith, dros £10,000! Bydd rhai, ond onid, yn teimlo eu genau yn dyfrhau wrth ddarllen hyn, ac ereill yn cenfigenu. Bydd gan y brodyr yn Manchester swm ardderchog ar eu llaw, a gobeithiwn y galluogir hwy i wneuthur gwaith ardderchog.

Yr oedd rhyw bregethwr yn ddiweddar yn un o'n trefydd mawrion yn ail-adrodd geiriau un o'r hil syrthiedig, gyda'r bwriad, wrth gwrs, i ddibrisio Undodiaeth. "Nid oes gan yr Undodiaid ddim rhaff ddigon hir i achub y fath ag wyf fi." Nid yw y geiriau ddim amgen nag adsain y pwlpud. Rhaid yw wrth

RAFFAU ACHUBOL,

o *special make*, i achub pechadur. Mae gan y Pabydd un neillduol dda, gan offeiriad Eglwys Loegr un sydd, fel pelenau Holloway,

yn anffaeledig, a chan yr enwadau Anghydffurfiol bob un raff nad oes ei chyffelyb. Ond y mae un peth yn debyg ynddynt oll, ni ellir gwthio y rhaff ond gan swyddog y sect y perthyn y rhaff iddi, na chandde yntau, ychwaith, oddieithr o ddrws ei gapel neu ei eglwys ei hun. Sonir llawer am y cynllun cadw, a llawer am broffesu a chredu, a myned at yr Iesu "fel yr ydych chwi," *just as you are!* Dibrisir gweithredoedd da sydd yn llawn gwerth ugain swllt y bunt, ac un owns ar bymtheg y pwys. Ychydig sonir am y rhaff Ysgrythyrol—edifeirwch a diwygiad. Syml iawn ydyw cynghor y proffwyd, ond gwahanol i eiddo y credoau: "Gadawed y drygionus ei ffordd, a'r gwr anwir ei feddyliau, a dychweled at yr Arglwydd, ac Efe a gymer drugaredd arno; ac at ein Duw ni, oherwydd Efe a arbed yn helaeth." Edrycher ar y rhaff hon yn ofalus. Ymddengys yn gryf ddigon, ac yn rhesymol iawn, ac yn sicr y mae yn Ysgrythyrol. Onid yw hon yn ddigon hir i achub y pechadur gwaelaf? Credaf ei bod; ac yr wyf yn amheu a oes un arall yn ddigon hir, os na fydd hon yn ffurfio cainc ohoni—a hon yw y rhaff a ddefnyddir gan yr Undodiaid, onide?

Gwneir pob peth i daflu anmharch ar yr Undodiaid, ac i beri i bobl gredu fod eu haddysg a'u dylanwad yn elynol i ysbryd crefydd. Ac eto, pwy yn y ganrif ddiweddaf a wnaeth fwy i amddiffyn Cristionogaeth na Lardner a Priestley? a phwy yn y ganrif bresenol sydd wedi gwneuthur mwy tuag at osod crefydd ar sail sefydlog na Channing, Parker, a Martineau? Pwy heddyw sydd yn gwneuthur mwy, yn ol eu rhif, dros wehilion cymdeithas *(lapsed masses)* yn Manchester, Liverpool, a Birmingham na'r Undodiaid? Pe dilëid enw a gwaith Undodiaid allan, byddai raid darllen hanes Prydain Fawr mewn gwedd wahanol i'r hyn ydyw heddyw. Pwy fu yn achos cychwyn y *Ragged Schools*, ysgolion i blant tlodion, cyn bod son am yr Ysgolion Byrddol? Onid y *cobbler* cloff, John Pounds, o Portsmouth? Pwy fu yn foddion sefydlu *Reformatories* (ysgolion i geisio gwella plant drwg)? Onid Mary Carpenter a Lady Byron? Pwy wnaeth fwy dros y mud a'r byddar na Dorothea Dix? Ac onid Dr. Howe ddarfu ddwyn Laura Bridgman, trwy offerynoliaeth y teimlad yn unig, i gyffyrddiad melus â'r byd mawr yr oedd yn byw ynddo, er ei bod yn amddifad o'r gallu i glywed, i weled, i arogli, ac i archwaethu? Miss Wilkinson gychwynodd y *Public Baths* a'r *Wash-houses*, sydd mor ddefnyddiol i dlodion ein trefydd mawr-ion. Dr. Tuckerman sefydlodd y *Domestic Mission*. Dr. Cogan y *Royal Humanitarian Society*. Yr oedd Ysgolion Sul gan Mrs. C. Cappe a Theophilus Lindsay cyn bod son am Ysgol Robert Raikes na Charles o'r Bala. Frances Nightingale a Dr. H. W. Bellows a brofasant eu hunain yn angylion gwarcheidiol i glwyf-edigion rhyfel y Crimea a'r Unol Dalaethau. Dr. Winchester sefydlodd Gymdeithas Heddwch—ac Undodiaid oedd y rhai hyn oll.

A pha beth mwy a ddywedaf? Canys yr amser a ballai i mi

fynegi am Milton, a Locke, a Newton; ac am Micel Serfed, a ddarganfyddodd gylchrediad y gwaed o flaen Dr. Harvey, ac a aeth i ogoniant trwy y tân a gyneuwyd gan John Calfin; am Dr. Franklin a'i ddarganfyniad o *electricity;* am Dr. Priestley yn darganfod mai peth cyfansawdd oedd yr awyr; ac am Cavendish yn darganfod elfenau y dwfr; am Lyell, y daearegwr; a Wedgewood, y crochenydd. Y rhai hyn oll a wnaethant wasanaeth i'w hoes a'u cenedlaeth; ac a gawsant eu cyfran, rai ohonynt, o'r erlid sydd mor hoff gan anffaeledigion yr eglwysi. Nid oes son fod un ohonynt hwy wedi erlid nac esgymuno neb erioed am wahaniaeth barn; eithr ymfoddlonent ar gyflawni gwaith eu dydd yn dawel a didwrw, gan wneuthur i ereill fel y carent i ereill wneuthur iddynt hwythau.

Tachwedd 15*fed*, 1897. ABIEC.

GWERSI AR FYWYD IESU:

Seiliedig ar yr Efengyl yn ol Marc, dan olygiaeth y Parch. W. James, B.A., Llandysul.

WELE hwynt allan o'r Wasg o'r diwedd, yn gyfrol hardd o 96 tudalen, a gobeithiwn y caiff yr anturiaeth newydd a phwysig hon dderbyniad a chymeradwyaeth wresog yr holl eglwysi, fel y byddo i'n hieuenctyd dyfu i fyny yn gryf yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd. Mae yma 33 o wersi, 17 gan W. J., 7 gan D. E., 5 gan J. H. D., a phob o un gan D. E. J., J. T., T. T., a Myfyriwr; a'r Maes Llafur yn cyrhaedd hyd ddiwedd y 5ed benod o Marc. Gorphenir y Gwersi mewn rhan arall o'r Llyfr. Ceir ar y diwedd 42 o holiadau i blant bach, gydag atebion, gan y Parch. John Davies.

Ystyriwn y gwaith wedi ei wneuthur, ar y cyfan, yn dda iawn, a llongyfarchwn y Golygydd ar ei lwyddiant—perffaith, bron. Bron, wrth gwrs; 'does dim modd dyfod o hyd i anffaeledigrwydd yma. Sylwer ar un peth yn neillduol; ymddengys yma gais i adael heibio "yr" o flaen enw Iesu, ond methiant yw. Holer i'r athraw beth yw yr amcan. Ar tudalen 68, darllener Cananead. Nid oes dim synwyr yn y llall, nac un awdurdod drosto. Gweler y Groeg, a gweler y Cyf. Diw. Tudal. 53, *Pylgain*, gair a ddygwyd i'r Eglwys gan y Pabyddion, a llygriad o *Pulli Cantus*, h.y., Caniad y Ceiliog. Onid yw yr awdwr yn rhy benderfynol pan y dywed (tudal. 68), "mai Lebbeus yw awdwr Epistol Judas." Mae'r argraffydd wedi gwneuthur ei waith yn dda. Hai ati, ynte, yn awr! R. J. J.

MANION AC HANESION.

RHYDYPARK. — Cynaliwyd Cyfarfod Diolchgarwch yn y lle uchod nos Lun, Hydref 11eg, pryd y cafwyd dwy bregeth odidog, un gan y Parch. W. Davies (A.), Moriah, a'r llall gan Mr. J. E. Jones, myfyriwr o Laubedr. Er fod yr hin yn anffafriol iawn, fe gafwyd cynulliad da a gwrandawiad astud. Llwyddiant y Nef fo ar yr achos yn y lle hwn.

CEFNCOED.—Nos Iau, Hydref 28ain, cynaliwyd y drydedd Jubili yn hanes yr Eglwys yn yr Hen Dy Cwrdd. Adeiladwyd y capel cyntaf yn 1747, ac y mae eleni yn cyrhaedd ei 150 mlynedd o'i oedran. Dechreuwyd y cyfarfod gan y Parch. J. E. Jenkins, Dowlais, a chadeiriwyd yn odidog gan Mr. Thos. Thomas, Merthyr. Rhoddwyd braslun o hanes Anghydffurfiaeth yn yr ardal gan y Parch. J. Thomas (A.), Soar, Merthyr, yr hwn oedd yn ardderchog yn mhob ystyr. Siaradwyd gan y Parchn. T. Rees, D.D. (M.C.); Jacob Thomas (A)., Tabor, Cefn; T. Salathiel (B.), Cefn; Mr. Matthew Owen, Ysgolfeistr, Cefn; a'r Parch. J Hathren Davies. Yr oedd y Parch. D. J. Williams yn bresenol, er na chafodd gyfle i siarad. Yr oedd y capel yn orlawn, lluaws yn methu dyfod i mewn, a'r gweithrediadau yn ogoneddus dros ben.

ABERDAR.—Cynaliwyd gwyl dê flynyddol yr Hen Dy Cwrdd dydd Llun, Tachwedd 8fed, ac yn yr hwyr cafwyd cyngerdd llwyddianus. Teimla'r gynulleidfa yn neillduol ddiolchgar i'r allanolion a roddasant en help parod ac ewyllysgar. Cadeiriwyd yn ddeheuig ac yn dda gan Mr. Rees Llewelyn, Bwllfa.

CWMBACH.—Deallwn fod y Parch. J. Fisher Jones, gweinidog yr eglwys hon am flynyddau, wedi derbyn galwad wresog oddiwrth yr eglwys Undodaidd yn Cheltenham i ddyfod i'w bugeilio. Mae Mr. Jones wedi ateb yr alwad yn gadarnhaol, a bwriada gychwyn yn ei gylch newydd gyda dechreu y flwyddyn newydd. Llwyddiant mawr iddo yn mysg y Saeson.

RHYDYGWIN. — Traddodwyd darlith yn y lle hwn nos Fercher, y 10fed o Tachwedd, gan y Parch. J. J. Jones, B.A., Rhydybont, ar y testyn canlynol: "Arferion Dwyreinig yn amser Iesu Grist." Cyflawnodd y darlithydd perchus ei waith yn y modd mwyaf canmoladwy, yn deilwng ohono ei hun fel meddyliwr craff a dysgedig, ac o'r testyn chwaethus a buddiol a ddewisodd. Yn nghwrs y ddarlith cafwyd amryw ddarluniau yn gosod yn weledig ger bron y gwahanol faterion yr ymdrinid â hwy. Yn eu plith cafwyd rhai yn dangos olion Atben, ac amryw o ddamegion Crist, a lluaws o arferion dwyreiniol y mae eu gwybod yn fawl o fantais sylweddol i'r efrydydd Beiblaidd. Trefnwyd ychydig seibiant tua chanol y ddarlith er rhoddi Tystysgrifau i'r ymgeiswyr hyny o Ysgol Sabbathol Rhydygwin a fuont llwyddianus yn yr Arholiad Ysgrythyrol a gynaliwyd yno yn ddiweddar. Cyflwynwyd y Tystysgrifau gan y Parch. L. Williams, yr hwn hefyd oedd cadeirydd y cyfarfod. Ni raid ond crybwyll y ffaith fod 25 wedi cael yr anrhydedd o dderbyn tystysgrifau er dangos fod gwaith egnïol a didwyll yn cael ei gyflawni gan ddeiliaid Ysgol Sabbathol y lle. Hyderwn yn galonog y bydd i'r anrhydeddau hyn a estynwyd i'r teilwng mewn dull mor gyhoeddus fod yn ddefnydd symbyliad i ereill i ddilyn yn yr un llwybr daionus. Wedi i'r gorchwyl hapus hwn basio, ail-ymaflodd y darlithydd yn ei waith, a chadwodd y gynulleidfa yn astud a dyddorol o'r dechreu i'r diwedd. Yr oedd y ddarlith yn un o'r rhai goreu a wrandawsom erioed. Ar y diwedd, talwyd y diolchiadau arferol i'r darlithydd a'r cadeirydd. Dywenydd genym allu hysbysu fod y cynulliad yn neillduol o luosog, a bod yr elw felly at bwrcasu llyfrau at wasanaeth yr Ysgol Sabbathol yn arbenig o foddhaol.

Y GRAIG A GELLIONEN.—Cynaliodd yr eglwys uchod ei chyfarfodydd pregethu haner-blynyddol ar y Sul, Hydref 31ain, a hwyr Llun, Tachwedd 1af. Gosodwyd hadau o'r Ysgrythyr Lan yn nghalonau y gwrandawyr lluosog gan y

Parchn. R. C. Jones, Llanbedr, a J. Hathren Davies, Cefncoed. Nid oes eisieu i ni ganmol y ddau bregethwr a nodwyd, oblegid y maent yn canmol eu hunain trwy gyfrwng eu pregethau grymus. Derbyniwyd casgliadau da i leihau y ddyled; ac yr ydym yn diolch yn enw "Duw a phob daioni" i'r rhai a roisant eu cyfraniadau, fychain a mawrion, Dymunwn ddiolch hefyd, ar ran yr eglwys, y gweinidog, a'n harweinydd ffyddlon, i'r pedwar aelod o scindorf arian gyhoeddus Trebanos, yn nghyda'r cyfeiydd, Mr. John H. Morgan, am y mawr gymhorth a roddasant i hwylysu y canu wrth chwareu yr udgorn arian, 1*st Cornet*, 2*nd Cornet*, *Tenor Horn*, a *B. Bass*. Dechreuwyd y cyfarfod nos Lun gan y Parch. J. T. Davies (A.), Pontardawe, ac yr oedd y gynulleidfa yn llawenhau wrth ei weled yn esgyn grisiau y pwlpud, gan yr hwn y cafwyd gweddi gref, synwyrol, ansectyddol; a theimlir wrth hyn fod llinynau cul-drawsion enwadaeth yn cyflym fyrhau yn y byd crefyddol.

Glanrhondda, Pentre. — Cynaliodd yr eglwys uchod ei gwyl dê flynyddol ddydd Llun, Tachwedd 1af. Trefnwyd y byrddau yn ddestlus a phwrpasol iawn gan foneddigesau y gynulleidfa, a daeth yn nghyd lawer o gyfeillion, pell ac agos, i gymeryd o'r dantteithion a barotowyd ar eu cyfer. Llawen yw deall fod ymdrechion y brodyr yma wedi troi allan yn llwyddiannus, ac fod swm fechan wedi ei sylweddoli er lleihau dyled y capel, yr hwn sydd faich trwm ar ysgwyddau cynifer o weithwyr tanddaearol yn y dyddiau hyn. Yn yr hwyr, cafwyd cyfarfod adloniadol, dan lywyddiaeth y Parch. Jenkyn Thomas, Aberdar. Tybiwn i bawb fwynhau eu hunain, yn enwedig ar gyfrif y modd yr aeth y plant drwy eu gwaith.

Llanwnen.—*Priodas y Cyngh. Edward Owen Jones*—Parodd derbyniad y newydd fod ein cyfaill parchus a phoblogaidd, Mr Edward Owen Jones, wedi ymbriodi â boneddiges ieuanc yn Llundain, y diwrnod hwnw (Sadwrn), deimlad o ortoledd dwfn a chyffredinol yn mysg pob dosbarth yn y wlad hon. Priodwyd ef â Bessie, unig ferch i foneddwr cyfoethog o'r enw Mr. Symons, yr hwn sydd yn byw yn 41, Hamilton Road, Highbury Park, Llundain Cymerodd y seremoni le yn eglwys St Mary, Islington pryd y gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parch. J. W. Pickford, ficer. Y mae Mr Edward Owen Jones yn drydydd mab i'r diweddar Mr. William Jones, yr hwn a fu yn Ustus Heddwch ac yn Is-raglaw yn y sir hon am gryn nifer o flynyddoedd; ac y mae yn gefnder hefyd i Mr T. H. R. Hughes, o'r Neuadd Fawr. Felly, fe welir fod y boneddwr ieuanc hwn yn disgyn o'r ddau deulu mwyaf parchus, o ran safle cymdeithas, yn sir Aberteifi—teuluoedd sydd wedi bod am oesoedd lawer yn cael edrych i fyny atynt fel arweinwyr y blaid Ryddfrydig yn sir Aberteifi; ac felly y maent yn parhau hyd y dydd hwn. Y mae yr aelod hwn o'r teulu, fel y rhelyw ohono, wedi bod, er mor ieuanc ydyw o ran oed, yn llanw swyddau pwysig yn yr ardal yr oedd efe yn byw ynddi Y mae yn aelod o'r Cynghor Sirol. Efe oedd yr un a gafodd ei benodi yn gadeirydd cyntaf Cynghor Plwyf Llanwnen. Ac efe ydyw cadeirydd Cymdeithas Cymru Fydd a'r Gymdeithas Ryddfrydig; a'r hyn sydd yn fwy na'r oll ydyw, y mae yn Rhyddfrydwr aiddgar a digymysg, ac yn siaradwr cyhoeddus campus. Ni wiw i Doriaeth ddysgwyl cael daear dda fel ag i allu tyfu yn uchel iawn yn yr ardaloedd hyn tra y byddo Mr. Edward Owen Jones byw. Cyfreithiwr ydyw efe o ran ei alwedigaeth, a bydd yn newydd dedwydd a llawen i bawb glywed ei fod ef yn bwriadu agor swyddfa mewn lle heb fod yn mhell o'i ardal enedigol. Bydded iddo ef, yn nghyda'i briod hawddgar, gael hir oes i gydfwynhau eu hunain, ac i wneyd daioni mawr yn eu dydd yn ngwahanol gylchoedd cymdeithes. A gallant deimlo yn dra sicr y bydd i bawb eu derbyn ar eu dyfodiad gyda pharch, ac â breichiau agored.—*O'r "Faner."*

Dowlais. — Prydnawn ddydd Iau. y 14eg o Hydref, cynaliwyd yr wyl dê flynyddol. Gwerthwyd oddeutu 600 o docynau; ac er gwaethaf ansawdd wlybyrog yr hin, daeth tua 400 yn nghyd, a phawb yn ymddangos yn mwynhau eu hunain yn bur dda, ac yn cael eu llwyr foddloni. Y boneddigesau perthynol i'r capel yn gweinyddu wrth y byrddau. Ar y Sul, Hydref 31ain, cynaliwyd cyfarfodydd diolchgarwch am y cynhaufa yn y boreu, prydnawn, a hwyr, pryd yr oedd y Parch. J. Arthur Thomas, Llandysul, yn gwasanaethu. Yr oedd y capel wedi ei addurno yn brydferth erbyn yr achlysur â ffrwythau a blodau o bob math, a chafwyd cynulleidfaoedd cysurus trwy'r dydd.

Pantydefaid.—*Gwyl De.*—Rhoddwyd gwledd ragorol o dê a bara brith i ddeiliaid Ysgol Sul Pantydefaid, yn nghyda llueodd ereill, gan Mr. a Mrs. Thomas, Green Park, yn ystafell neuadd yr Undodiaid, prydnawn ddydd Mawrth, y 26ain cynfisol. Dechreuodd y tê am 3 o'r gloch, a chyfranogodd oddeutu 200 yn dra helaeth o'r

danteithion blasus a ddarparwyd yn drefnus ar gyfer yr amgylchiad. Gwasanaethwyd wrth y byrddau gan y boneddigesau canlynol:—Miss Thomas, Green Park; Mrs. Thomas, Cletwr Villa; Mrs. Jenkins, Gwarllwynoidos; Mrs. Davies, Cefngwallter; Mrs. Jones, Pantmoch; Mrs. Evans, Gyfeile; Mrs. Thomas, Cloth Hall; Mrs. Davies, Coedyfoel; Miss Thomas, Abernant; Miss Jones, Gelligron; a Miss Jones, Camnantfach. Yn ystod y prydnawn, aed allan i ddifyru y plant, pryd y rhoddwyd gwobrwyon iddynt am redeg, &c., gan Mr T. Thomas, Y.H., a'r Parch. T. Arthur Thomas. Ar ol gorphen gyda hyn, cliriwyd y byrddau, a chynaliwyd cyfarfod llenyddol llewyrchus, yn dechreu am 6 yn yr hwyr. Yn mhell cyn bod yr amser i fyny yr oedd y neuadd eang wedi ei gorlenwi—ystafell ddigon eang i gynwys oddeutu 250 o bobl; ac er syndod, canfyddid llawer y tuallan o ddiffyg lle. Dewiswyd Mr. T. Thomas, Y.H., yn gadeirydd, a'r Parch. T. Arthur Thomas yn arweinydd, ac iawn yw dyweyd iddynt gyflawni eu gwaith yn feistrolgar dros ben. Gwastraff ar ofod fuasai rhoddi holl gynwysiad y rhaglen; am hyny, maddeuer i ni gyda yn unig grybwyll fod yno ganu rhagorol ac addroddiadau da. Treuliwyd tair awr hapus yn swn telynau natur a chelfyddyd, a da genym ddyweyd i'r oll fyned trwy eu gwaith yn ganmoladwy. Talwyd diolchgarwch i Mr. a Mrs. Thomas am y tê, i'r boneddigesau am wasanaethu wrth y byrddau, i'r cadeirydd a'r arweinydd, a therfynwyd drwy i Mr. D. Davies, Gwarcefel Arms, ganu "Hen Wlad fy Nhadau," a'r dorf yn uno yn y cydgan. Cafwyd cyfarfod hwylus o'r dechreu i'r diwedd. Mwynhaodd pawb y wledd yn hyfryd, a hyderir am un gyffelyb eto yn fuan.

PRIODASAU.

Dydd Mercher, Tachwedd 3ydd, unwyd mewn glan briodas, yn nghapel Salem, Fardre. Clydach, Mr. Daniel William John, Cwm, â Miss Elizabeth Emily Whittaker, Vardre Hotel, Fardre, Clydach. Gweinyddodd y Parch. J. R. Morgan, Pontardawe, a'r cofrestrydd.

Bu Dan yn nofio afon serch
Mewn ymdrech galed am y ferch;
Ymdrechodd ugain gwaith o'r bron
I gyflawn enill calon hon;
Aeth llawer breuddwyd dros ei ben
Wrth feddwl am yr eneth wen;
Ond Ha! ha! ha! maent erbyn hyn
Yn chwerthin yn y cwlwm tyn.

MARWGOFION.

Medi 24ain, yn 71 mlwydd oed, Mrs. Margaret Jones, 17, Bryntirion Street, Dowlais, genedigol o Bentre Estyll, ger Abertawe, gan adael priod, dau fab a dwy ferch, y rhai ydynt yn teimlo yn alarus iawn ar ei hol. Cafodd gystudd trwm am rai misoedd, ond dyoddefodd yn amyneddgar, ac ymostyngodd yn dawel i drefniadau doeth a chariadlawn ei Thad o'r nef. Yr oedd yr ymadawedig yn wraig dduwiol, ofalus, onest, a hynod o garedig, yn aelod ffyddlawn yn Hermon, capel y Methodistiaid Cilfinaidd; ond yr oedd weithiau yn talu ymweliad â chapel yr Undodiaid, gyda'i hanwyl briod. Mr. John Jones, yr hwn sydd yn ddiacon selog yn y lle. Ar y 29ain, daeth lluaws yn nghyd i'w hebrwng i dŷ ei hir gartref. Gwasanaethwyd yn y tŷ, yn absenoldeb ei gweinidog, gan y Parch. Williams, Ferndale; yn y Gladdfa Gyhoeddus gan y Parch. J. O. Evans, Libanus, Dowlais. Hydref 10fed, ar gais Mr. Jones a'r teulu, traddodwyd pregeth i'r amgylchiad gan y Parch. J. E. Jenkins, yn nghapel yr Undodiaid, pryd yr oedd perthynasau a chyfeillion yr ymadawedig yn bresenol. Yn ngwyneb yr amgylchiad chwerw yma,

bydded fod ei phriod, y plant, a'i pherthynasau, i dderbyn nerth a chysur oddiuchod, gan ystyried mai yr "Arglwydd a roddodd, a'r Arglwydd a ddygodd ymaith: bendigedig fyddo enw yr Arglwydd."

Medi 27ain, yn 71 mlwydd oed, John Jones, 'Refelfach, Crugyreryr, Llandysilio gogo, a chladdwyd ef y Mercher canlynol yn Methel, Llandysul. Cyn cychwyn o'r ty anedd darllenwyd a gweddiwyd gan y Parch. T. C. Benjamin, gweinidog Pisgah, a chyflawnwyd y gwasanaeth arferol yn y capel ac ar lan y bedd gan y gweinidog (W.) Gadawodd weddw oedranus a saith o blant i alaru ar ei ol. Yr oedd yr ymadawedig yn barchus yn ei gymydogaeth fel gweithiwr diwyd a gonest. I gapel Bwlchyfadfa yr arferai fyned i addoli ar y Sul, a phregethwyd y bregeth angladd y Sul olaf o Hydref, yn y Bwlch, gan y Parch. T. Thomas, yn absenoldeb y Parch. W. James, oherwydd anwyd trwm. Yr oedd cynulleidfa luosog yn bresenol, yr hyn oedd brawf fod J. Jones yn barchus yn y gymydogaeth.

Hydref 2il, Henry C. Morris, Bridgend, Trecynon, Aberdar, yn 34 oed, gan adael gweddw ac un mab bychan i alaru eu colled anadferadwy. Claddwyd yn y Fynwent Gyhoeddus ar y 7fed.

Hydref 18fed, yn 46 mlwydd oed, Jane Thomas, Gwernant Lodge, ger Penrhiwpal. Y dydd Mercher canlynol, cludwyd ei gweddillion marwol i gladdfa Pantdefaid, pryd y gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. Arthur Thomas. Gadawodd briod a dau o blant i alaru ar ei hol.

Hydref 21ain, yn 41 mlwydd oed, Mary Davies, gynt o Dan'ralltgoch, ger Cwrtnewydd, ond yn ddiweddar o 34, Portmanmoor Road, Caerdydd. Symudasai i Gaerdydd ychydig flynyddoedd yn ol, ac yn ol ei harfer yn flaenorol, buasai yn ddiwyd a threfnus gyda'i galwedigaeth, a ffyddlon iawn gydag achos crefydd yn y West Grove Church; ac yr oedd pob argoelion y cai oes hir, lwyddianus, a dedwydd, hyd tua diwedd yr haf diweddaf, pan y dechreuodd deimlo anhwyldeb corfforol. Dychwelodd am dymhor i ardal ei genedigaeth, er mwyn ymgynghori â'r meddyg ag yr oedd ganddi yr ymddiried mwyaf ynddo (Dr. Evans, Llanbedr); a chwedi methu cael yr hyn a ddysgwyliai, dychwelodd i Gaerdydd, ac aeth i'r clafdy yno, lle y cafodd, yn debygol, bob peth a allai dyfais ddynol wneyd; ond y cyfan yn ofer, oblegid ar y dydd uchod, ehedodd ei hysbryd at Dduw, yr Hwn a'i rhoes. Y Sadwrn canlynol, dygwyd ei chorff gyda'r gerbydres i'w osod i orphwys yn ymyl ei mam anwyl yn mynwent Capelybryn, lle yr oedd wedi bod yn un o'r aelodau mwyaf ffyddlon am flynyddau, a lle y gwelir ei heisieu yn fawr am amser hir. Cyflawnwyd y gwasanaeth ar yr achlysur gan y gweinidog, yr hwn hefyd a draddododd ei phregeth angladdol ar Sul, y 30ain, i glywedigaeth cynulleidfa lon'd y capel. Gadawodd yn ei hewyllys £50 tuag at yr achos yn Nghapelybryn. "Yr hyn a allodd hon, hi a'i gwn eth." "Ei choffadwri eth sydd fendigedig."

Hydref 29ain, Sarah, gwraig John John, 8, Margaret Street, Trecynon, Aberdar, yn 75 oed. Claddwyd y Llun canlynol yn mynwent Eglwys St. Fagan's, y Parch. Rhys J. Jones yn gwasanaethu. Menyw ddiwyd, ddarbodus, ddi-son-am-dani, oedd Mrs. John, parchus gan bawb, a chan y Gwirionedd ei hun. Bydd hir a melus y coffa am dani gan ei phriod a'i phlant.

Tachwedd 9fed, yn 66 oed, yn dra annysgwyliadwy, o'r *bronchitis*, Ann, gweddw William Jenkins, Green Hill, Trecynon, Aberdar. Hanai Mrs. Jenkins o deulu Richard Jenkins, enwog am lawer cenedlaeth fel pleidwyr selog Undodiaeth, ac fel gweithwyr ffyddlon gyda'r achos yn yr Hen Dy Cwrdd, lle yr oedd hithau yn aelod er yn blentyn, a phan yn ieuanc yn gantores werthfawr gyda'r côr. Mab iddi ydyw Mr Joseph Jenkins, yn awr o Clydach Vale, i'r hwn, yn gystal a'i ddwy chwaer a'u perthynasau lluosog, y dymunwn nawdd Duw a'i dangnefedd yn yr amgylchiad trist a sobr. Geiriau y carai eu coffa yn ei horiau olaf oedd: "Os ein daearol dŷ o'r babell hon a ddatodir, y mae i ni adeilad gan Dduw," &c.

Joseph Williams, Argraffydd, Swyddfa'r "Tyst," Glebeland, Merthyr.